Papur Briffio 12

Camddefnyddio Sylweddau

Etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol 2007

"Mae camddefnyddio sylweddau yng Nghymru yn broblem gymhleth, ddeinamig ac aml-agweddol. Mae'n golygu sylweddau cyfreithlon ac anghyfreithlon ac mae'r effaith yn bellgyrhaeddol. Nid yn unig mae'n effeithio ar fywydau'r rheiny sy'n camddefnyddio sylweddau, o'r rheiny sy'n arbrofi i'r rheiny sy'n eithriadol o ddibynnol, ond hefyd ar eu teuluoedd a'u cymunedau."

Delio â Chamddefnyddio Sylweddau yng Nghymru
Llywodraeth Cynulliad Cymru 2000

Save the Children
Achub y Plant

Promoting Children's Rights
TROS GYNNAL
Hawliau Plant

NCH CYMRU

NSPCC
Dim mwy o greulondeb i blant. DIM.
Cruelty to children must stop. FULL STOP.

Barnardo's Cymru
RHOI'R DYFODOL YN ÔL I'N PLANT
GIVING CHILDREN BACK THEIR FUTURE

Plant, Pobl Ifanc a Chamddefnyddio Sylweddau

Mae Erthygl 33 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn rhoi i bob plentyn yr hawl i gael ei amddiffyn rhag y defnydd o gyffuriau narcotig a seicotropig. Mae dwy agwedd i'w hystyried wrth wireddu'r hawl hon:

- Plant a phobl ifanc sy'n camddefnyddio sylweddau sydd â hawl dan Erthygl 24 o CCUHP i gael gofal meddygol o'r safon uchaf.
- Plant a phobl ifanc sy'n profi effaith camddefnyddio sylweddau gan rieni/gofalwyr, sydd â hawl dan Erthygl 18 o CCUHP i gael eu magu gan eu rhieni, gyda chymorth gan y wladwriaeth os oes angen.

Beth sydd wedi'i gyflawni ers 2003?

Mae bwlch wedi bod yn y ddarpariaeth o wasanaethau triniaeth, sydd wedi peri bod rhai plant a phobl ifanc wedi derbyn gwasanaethau camddefnyddio sylweddau i oedolion sy'n anaddas iddynt hwy. Rydym yn falch, felly, fod y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio wedi rhoi blaenoriaeth i ddarparu adnoddau ychwanegol ar gyfer gwasanaethau triniaeth addas i blant.

Yn 2003 cyhoeddwyd 'Hidden Harm – Responding to the needs of children of problem drug users' ar ôl ymchwiliad gan y Cyngor Cynghorol ar Gamddefnyddio Cyffuriau. Cafwyd oedi wrth ymateb gan y Cynulliad, ond rydym yn croesawu'r ffaith bod Panel Cynghorol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar Gamddefnyddio Sylweddau wedi datblygu "Fframwaith ar gyfer Gweithredu" a bod y fframwaith yn cael ei roi ar waith ledled Cymru.

Mae'r Cynulliad wedi sicrhau £300,000 i weithredu pum nod y Fframwaith, sy'n cynnwys hyfforddiant ar gyfer Meddygon Teulu, Ymwelwyr Iechyd a Bydwragedd sy'n gweithio gyda rhieni sy'n camddefnyddio sylweddau. Un o'r cyflawniadau pennaf yw y bydd camddefnyddio sylweddau'n bwnc amlwg ar yr agenda ar gyfer gwaith ar y cyd rhwng Byrddau Lleol Diogelu Plant a'i fod wedi'i gynnwys yn y canllawiau a roddwyd i'r byrddau yn Hydref 2006.

Un o'r prif flaenoriaethau yn 2006 fu cefnogaeth i wella gwybodaeth, sgiliau a chymhwysedd y gweithlu o ran deall anghenion, asesu a darparu gwasanaethau i rieni sy'n camddefnyddio sylweddau a'u plant. Rydym yn edrych ymlaen at weld sefydlu rhwydwaith i Gymru gyfan a chreu canolfan a fydd yn cydweithio i hyrwyddo rhagoriaeth mewn addysg, hyfforddiant a datblygiad ym maes camddefnyddio sylweddau.

Mae'r modiwl ar blant a phobl ifanc yn y Fframwaith Triniaeth ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau yn destun ymgynghori ar hyn o bryd, ac er gwaethaf yr oedi ers y llynedd, rydym yn falch bod y Cynulliad bellach wedi cyhoeddi fersiwn arbennig o'r ddogfen ymgynghori sy'n addas ar gyfer plant/pobl ifanc a'i fod yn trefnu gweithdai ar y modiwl. Rydym hefyd yn croesawu'r cynnig ar gyfer y cynllun peilot ymyriad cynnar a arfarnir. Rydym yn gobeithio y caiff yr hyn a ddysgir wrth y cynllun peilot ei ddefnyddio i oleuo datblygiadau pellach yn y maes hwn.

Rydym ni, fel y Gweinidog, yn teimlo'n rhwystredig ynghylch y cynlluniau i ddatblygu llety ar gyfer pobl ifanc, yn enwedig am fod cyllid wedi'i ddarparu eisoes. Rydym yn ymddiddori'n fawr yn natblygiad y prosiect ac yn gobeithio y gellir rhoi sylw cyn hir i'r materion sy'n gysylltiedig â gwrthwynebiad lleol i gynlluniau.

Beth yw ein pryderon presennol?

- Er bod Hidden Harm wedi'i gyhoeddi yn 2003 a digwyddiadau lansio cenedlaethol wedi'u cynnal, araf fu'r ymateb yng Nghymru iddo. Mae'n bosibl bod y symbyliad i'r gwaith hwn wedi pallu a bod adnoddau wedi'u dyrannu ar gyfer blaenoriaethau croes.

- Nid oes gwasanaethau camddefnyddio sylweddau ar gyfer plant a phobl ifanc. Mae plant a phobl ifanc sy'n camddefnyddio sylweddau naill ai'n methu cael mynediad at wasanaethau, neu maent yn cael eu trin yn amhriodol gan wasanaethau oedolion.

- Nid yw plant a phobl ifanc sydd â phroblemau sy'n ymwneud â chamddefnyddio sylweddau ac iechyd meddwl yn cael fawr ddim cymorth gan mai prin iawn yw'r gwasanaethau arbenigol i ddiwallu'r anghenion hynny.

- Oherwydd y stigma a materion cyfreithiol, mae plant i rieni/gofalwyr sy'n camddefnyddio sylweddau yn cael eu celu ymysg poblogaeth sydd eisoes yn guddiedig.

- Mae diffyg o ran protocolau ar gyfer cydweithio a rhannu gwybodaeth rhwng gwasanaethau camddefnyddio sylweddau, gwasanaethau plant a gwasanaethau cyfiawnder troseddol.

Argymhellion

Rydym yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i:

- Benodi cynrychiolydd plant i Banel y Cynulliad ar Gamddefnyddio Sylweddau.

- Sefydlu corff cydgysylltu i hyrwyddo themâu trawsbynciol Hidden Harm a'r Fframwaith ar gyfer Gweithredu, gan gydnabod nad mater sy'n ymwneud â chamddefnyddio sylweddau'n unig yw hyn.

- Hybu a hyrwyddo'r galw am gydnabod yr angen am wasanaethau camddefnyddio sylweddau i blant a phobl ifanc ym mhob awdurdod lleol.

- Targedu cyllid ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl arbenigol i blant a'r glasoed er mwyn ymdrin ag achosion lle y mae camddefnyddio sylweddau a phroblemau iechyd meddwl yn digwydd ar y cyd ymysg pobl ifanc.

- Cydnabod a hyrwyddo pwysigrwydd gofalwyr ifanc mewn cysylltiad â chamddefnyddio sylweddau gan rieni/gofalwyr a darparu ffrydiau ariannu parhaol i gefnogi gofalwyr ifanc.

- Rhoi ystyriaeth ar frys i blant i droseddwyr benywaidd sy'n camddefnyddio sylweddau sy'n cael dedfryd o garchar.

- Darparu gwasanaethau cynghori annibynnol ym mhob ysgol yng Nghymru a sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yn gwybod am wasanaethau sy'n gallu eu helpu a'u cefnogi os oes ganddynt broblemau neu bryderon, e.e. Childline.

MANYLION CYSWLLT

BARNARDO'S CYMRU
ANDY JAMES, CYFARWYDDWR CYNORTHWYOL, POLISI
Ffôn: 01792 463357
E-bost: andy.james@barnardos.org.uk

NCH CYMRU
JAYNE ISAAC, SWYDDOG POLISI CYHOEDDUS
Ffôn: 029 20 222127
E-bost: jayne.isaac@nch.org.uk

NSPCC
SIMON JONES, CYNGHORYDD POLISI CYMRU
Ffôn: 029 20 267000
E-bost: simonjones@nspcc.org.uk

ACHUB Y PLANT
ANNE CROWLEY, UWCH GYNGHORYDD POLISI
Ffôn: 029 20 396838
E-bost: a.crowley@savethechildren.org.uk

TROS GYNNAL
JACKIE MURPHY, CYFARWYDDWR CYNORTHWYOL
Ffôn: 029 20 396974
E-bost: jackie.murphy@trosgynnal.org.uk

Cefnogwyd y papur briffio hwn gan Plant yng Nghymru